

**Cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth**

**Cymru ar gyfer y sector dŵr  
yng Nghymru drwy ein  
methodoleg adolygiad prisiau  
2024 terfynol**

**ofwat**

## Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi blaenoriaethau ac amcanion strategol ar gyfer Ofwat yn ei datganiad o flaenoriaethau ac amcanion (SPS) a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2022.<sup>1</sup> Mae'n ofynnol i ni weithredu yn unol â'r SPS pan fyddwn yn gosod rheolaethau prisiau ar gyfer cwmnïau dŵr yng Nghymru yn 2024 ac wrth gyflawni ein swyddogaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru.<sup>2</sup>

Mae Llywodraeth Cymru wedi fframio'r SPS yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i Rhaglen Lywodraethu 2021-2026. Mae'n nodi cyfres o flaenoriaethau ac amcanion strategol ar gyfer Ofwat. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat ddatblygu'r fframwaith rheoleiddio fel sy'n berthnasol i Gymru ar sail tystiolaeth gadarn berthnasol yng nghyd-destun Cymru.

### I grynhoi, amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer sut y mae'n disgwyl i Ofwat gyflawni ei swyddogaethau yw:

- mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar **ganlyniadau** sy'n hyrwyddo ffocws priodol ar fynd i'r afael â risgiau **hirdymor**, diogelu gwynwch a pherfformiad hirdymor a sicrhau bod amseriad buddsoddiad yn arwain at degwch rhwng cenedlaethau;
- dilyn dull **ataliol** drwy annog cwmnïau i ddeall ac ystyried sut y gellid mynd i'r afael â phroblemau yn eu ffynhonnell;
- rhoi **gwerth am arian** i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd a herio cwmnïau i ddarparu cymorth cynaliadwy ac effeithiol i gwsmeriaid bregus a chwsmeriaid sy'n cael trafferth talu;
- herio cwmnïau i ddarparu atebion **gwerth gorau** drwy annog buddsoddiad sy'n ymateb i nifer o ysgogwyr neu sydd â nifer o fanteision ac sy'n ystyried canlyniadau a gwerth amgylcheddol a chymdeithasol ehangach i atebion;
- annog cwmnïau i **gynnwys**, ymgysylltu â ac ystyriedyn yn ystyrllon safbwyntiau cwsmeriaid a rhanddeiliaid ar ganlyniadau, blaenoriaethau a chyflymder hirdymor cyflawniad a defnyddio **cydweithredu** effeithiol i sicrhau effaith ac effeithiolrwydd mwyaf posibl rheoleiddiad;
- darparu **fframwaith rheoleiddio** cydlynol a thryloyw sydd, o'i ystyried yn ei gyfanrwydd, yn gymesur, effeithiol, tryloyw ac effeithlon ac yn herio cwmnïau i ddarparu tystiolaeth glir a chymhellol i ategu eu cynlluniau buddsoddi; a

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, '[Datganiad blaenoriaethau ac amcanion strategol i Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991](#)', 7 Rhagfyr 2022

<sup>2</sup> Gweler adran 2B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. At y dibenion hyn, ystyr "swyddogaethau perthnasol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru" yw'r swyddogaethau a grybwyllir yn adran 2(1) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 i'r graddau y maent yn ymwneud ag ardaloedd penodi sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. "Ardal benodi" yw'r ardal y mae cwmni wedi'i benodi'n ymgymwrwr dŵr a/neu garthffosiaeth ar ei chyfer.

- herio cwmnïau i chwilio am **ffyrdd newydd o weithio** er mwyn cyflawni ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd yn fwy effeithlon.

### **Mae Llywodraeth Cymru yn nodi disgwyliadau manylach ar gyfer Ofwat mewn perthynas â phum blaenoriaeth strategol:**

- **argyfyngau hinsawdd a natur;**
- **yr amgylchedd**
- **gwytnwch;**
- **iechyd asedau; a**
- **chwsmeriaid a chymunedau.**

Er bod gennym amrywiaeth o offer rheoleiddio, ac nad yr adolygiad prisiau yw'r unig ffordd i gyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion strategol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi, mae'r themâu hyn yn ganolog i'n methodoleg derfynol.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi sut mae ein polisiau yn cefnogi cyflawniad blaenoriaethau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru.

# 1. Cefnogi amcanion strategol Llywodraeth Cymru

## Cynllunio a chyflawni ar gyfer yr hirdymor

Rydym yn disgwyl i gwmnïau ddeall y risgiau hirdymor i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd ac esbonio sut y byddant yn diogelu gwytnwch a pherfformiad. Yn PR24, bydd cwmnïau dŵr yn nodi eu cynlluniau busnes ar gyfer 2025-30 yng nghyd-destun strategaethau cyflawni hirdymor ar gyfer y 25 mlynedd nesaf.

Dylai cynllunio addasol fod wrth wraidd strategaeth gyflawni hirdymor pob cwmni a dangos sut y bydd yn addasu i newidiadau mewn ffactorau megis newid yn yr hinsawdd a galw. Dylai hefyd sefydlu buddsoddiadau dim a fawr ddim difaru sy'n debygol o sicrhau canlyniadau'n effeithlon o dan bob un neu ystod eang o senarios credadwy yn y dyfodol.

## Sicrhau fframwaith rheoleiddio cydlynol a thryloyw

Rydym yn gosod rheolaethau prisiau gan ystyried egwyddorion arfer rheoleiddio gorau, gan gynnwys y dylai ein gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu.

Rydym wedi ymrwmo i werthuso effaith ein gweithgareddau rheoleiddio ar ôl iddynt gael eu gweithredu, i'n helpu ni a rhanddeiliaid i ddeall i ba raddau y mae ein nodau wedi'u cyflawni. Mae hyn yn ein helpu i ddysgu am effeithiolrwydd ein hymyriadau rheoleiddiol i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol a dangos ein hatebolrwydd i gwsmeriaid, i gymdeithas, i rhanddeiliaid ac i'r Senedd.

## Defnyddio dull ataliol

Rydym yn disgwyl i gwmnïau ddeall yr angen am fuddsoddiadau a nodi'r opsiwn gorau ar gyfer mynd i'r afael â'r angen hwnnw, gan gynnwys atal. Gall dull ataliol ddod â buddion i nifer o ymrwymadau perfformiad. Er enghraifft, gall buddsoddi mewn rhwydweithiau dŵr craffach a'r gallu i reoli o bell alluogi cwmnïau i atal ac ymateb yn gyflymach i bibellau prif gyflenwad yn byrstio a rheoli rhwydweithiau yn well.

## Cynnwys ac ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid

Ein huchelgais yw bod lleisiau cwsmeriaid preswyl a busnes yn cael eu clywed yn fwy uniongyrchol ac yn fwy effeithiol yn PR24 nag erioed o'r blaen. Bydd ymgysylltu agosach, mwy tryloyw yn hanfodol i fynd i'r afael â heriau brys megis lleihau'r galw am ddŵr, sy'n gofyn am bartneriaethau llawer mwy effeithiol gyda chwsmeriaid a chymunedau.

Rydym yn gweithio gyda chwmnïau a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCW) i gynnal ymchwil cwsmeriaid ar y cyd i lywio meysydd cyffredin o gynlluniau busnes. Rydym hefyd yn disgwyl i gwmnïau ymgysylltu ymhellach yn ôl yr angen, i sicrhau bod cyflwyniadau'n cael eu llywio gan farn rhanddeiliaid. Bydd cwsmeriaid, cymunedau a rhanddeiliaid ehangach hefyd yn cael cyfle i roi eu barn i gwmnïau'n uniongyrchol mewn sesiynau her agored.

Rydym wedi rhoi dull cydweithredol ar waith sy'n nodi'r canlyniadau lefel uchel sydd i'w cyflawni yng Nghymru a chyflwyno'r canlyniadau hyn fesul cam o fewn y strategaethau cyflawni hirdymor ar gyfer cwmnïau yng Nghymru. Gweithredir hyn drwy Fforwm PR24 Cymru. Mae'r Fforwm wedi nodi a thrafod materion allweddol ar gyfer Cymru a'r cwmnïau yng Nghymru ar gyfer PR24, a bydd yn defnyddio'r sylfaen bwysig hon i roi arweiniad strategol ar y canlyniadau a'r blaenoriaethau lefel uchel. Byddwn yn parhau i gefnogi'r Fforwm fel aelod ymgynghorol.

## Cydweithredu

Mae ein hegwyddorion gwerth cyhoeddus eisoes yn darparu rhywfaint o ganllawiau ar sut y dylai cwmnïau gydweithio ag eraill i optimeiddio atebion a sicrhau'r buddion mwyaf posibl, gan geisio alinio buddiannau rhanddeiliaid lle bo modd, a defnyddio cyfran deg o gyfraniadau trydydd parti lle bo angen. Er enghraifft, rydym eisiau cydweithredu i helpu i arloesi mewn modd sy'n newid y sector drwy'r gronfa arloesi.

Wrth ddatblygu cynlluniau busnes, rydym yn disgwyl i gwmnïau ystyried yn llawn gyfleoedd gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys cydariannu a chydgyflawni. Lle mae buddion perthnasol i drydydd parti, rydym yn disgwyl i gwmnïau fynd ati i geisio cyfraniadau gan y partion hyn. Dylai maint y cyfraniadau hyn fod yn gymesur â'r buddion y gall y partion hyn ddisgwyl eu cael drwy'r cynllun. Er mwyn annog cwmnïau ymhellach i wneud y mwyaf o gyfleoedd cydariannu, rydym yn cynnig ystyried cyfraniadau trydydd parti wrth i ni feincnodi gwariant gwella pan fyddwn yn ceisio sicrhau manteision economaidd ehangach.

Rydym hefyd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r ffaith bod cydweithredu yn nodwedd allweddol o'r amgylchedd gweithredu yng Nghymru a'i fod yn bwysig i'r sector dŵr drwy, er enghraifft, Fforwm PR24 Cymru a Thasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru.

## Canolbwyntio ar ganlyniadau

Er mwyn i'r sector lwyddo, mae'n hanfodol bod cwmnïau'n sicrhau'r canlyniadau cywir i'w cwsmeriaid, eu cymunedau a'r amgylchedd. Mae ein fframwaith canlyniadau yn dal cwmnïau dŵr i gyfrif am y canlyniadau y mae cwsmeriaid yn talu amdanynt ac yn eu cymell i fynd ymhellach lle bydd hynny'n sicrhau gwerth. Rydym yn gweithredu dull cydweithredol i nodi'r canlyniadau lefel uchel i'w cyflawni yn PR24, wedi'u hysgogi drwy Fforwm PR24 Cymru.

## Gwerth ar gyfer cwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd

Rydym am i gwmnïau ddarparu gwelliannau gwerth gorau yn PR24. Cynlluniau yw'r rhain sy'n rhoi'r budd economaidd mwyaf i gwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas, o gymharu â chostau, dros yr hirdymor. Gall fod amrywiaeth eang o fuddion y tu hwnt i brif ddiben y cynllun. Gall y rhain gynnwys gwelliannau amgylcheddol a bioamrywiaeth a buddion cymdeithasol megis iechyd y cyhoedd, lles a hamdden. Bydd asesu gwerth gorau yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau ystyried ystod eang o fuddiannau amgylcheddol a chymdeithasol, costau, risgiau a fforddiadwyedd biliau cwsmeriaid wrth ddatblygu eu cynigion.

Byddwn hefyd yn cymell cwmnïau i fod yn fwy effeithlon ac arloesol dros amser drwy ganiatáu iddynt gael cyfran o unrhyw danwariant os byddant yn gwella ar ein lwfansau costau a sicrhau eu bod hefyd yn ysgwyddo cyfran o unrhyw orwariant. Rydym yn defnyddio'r cwmnïau mwyaf effeithlon i osod meincnodau ar gyfer yr hyn y gall cwmnïau eraill ei gyflawni gan ddefnyddio cystadleuaeth "gymharol". Byddwn hefyd yn adlewyrchu costau effeithlon cwmnïau ar gyfer cynnal a chadw ac adnewyddu eu rhwydweithiau yn yr hirdymor a thwf ym maint, dwysedd a chymhlethdod y rhwydwaith.

## Rheoleiddio seiliedig ar dystiolaeth

Rydym yn disgwyl i strategaethau cyflawni hirdymor fod yn rhan allweddol o'r dystiolaeth ar gyfer gwariant gwella ar gyfer PR24. Yn y lle cyntaf, rydym yn annog cwmnïau i archwilio opsiynau i gyflawni canlyniadau hirdymor gan ddefnyddio atebion hyblyg, modiwlaid neu addasol lle bo modd a'i bod yn effeithlon i wneud hynny. Ar gyfer pob cais am wariant gwella, byddwn yn ystyried y dystiolaeth o ran yr angen, yr amrywiaeth o opsiynau, cost effeithlonrwydd a diogelu cwsmeriaid a gyflwynir gan gwmnïau. Ni ddylai cwsmeriaid dalu ddwywaith am wasanaethau gwydn – hynny yw, ni ddylent dalu unwaith drwy lwfansau sylfaenol neu welliannau a ariannwyd yn flaenorol, ac yna eto drwy geisiadau am gyllid ychwanegol ar gyfer yr un gwelliant. Byddwn yn herio cwmnïau i ddangos dystiolaeth bod unrhyw orgyffwrdd sylfaen wedi'i ystyried yn glir ac nad yw'r cais am allbynnau neu ganlyniadau a ariannwyd yn flaenorol.

## Arloesedd

Mae angen i gwmnïau arloesi'n gyson i gyflawni'r canlyniadau gorau i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd am gost y gall pobl ei fforddio. Yn PR24 byddwn yn parhau i ddisgwyl i gwmnïau weithio mewn gwahanol ffyrdd i gyflawni mwy. Byddwn yn cymell cwmnïau i weithio mewn partneriaeth ag eraill lle bo'n briodol i ganfod atebion gwell, mwy cyfannol a chynaliadwy. Byddwn hefyd yn ymestyn ein Cronfa Arloesedd i gefnogi syniadau a ffyrdd o weithio sy'n newid y sector ac yn cyflwyno cronfa effeithlonrwydd dŵr newydd i helpu i leihau'r galw am ddŵr.

Byddwn yn annog cwmnïau dŵr yng Nghymru i roi sylw i egwyddorion ac arferion caffael sy'n cyd-fynd â Datganiad Polisi Caffael Cymru, gan adlewyrchu potensial y diwydiant dŵr i chwarae rhan bwysig mewn galluogi twf gwyrdd a chefnogi'r economi sylfaenol yng Nghymru a'i rôl fel cyflogwr lleol mawr, contractwr a datblygwr sgiliau ac arbenigedd gweithlu.

## 2. Argyfyngau hinsawdd a natur

Mae'r sector dŵr yn wynebu cyfres o heriau hirdymor sy'n gofyn am weithredu nawr i sicrhau'r amgylchedd y mae pawb ohonom am ei weld ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym am i gwmnïau gyflwyno cynigion uchelgeisiol ar gyflymder sy'n ymateb i ofynion argyfyngau hinsawdd a natur - nawr ac yn yr hirdymor.

### 2.1 Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd a chyflawni sero net

**Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ni, ymhlith pethau eraill, annog cwmnïau i ddatblygu cynlluniau clir a chadarn ar gyfer sut y byddant yn cyflawni eu hymrwymadau sero net.**

Yn PR24, byddwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau osod eu cynlluniau busnes ar gyfer 2025-2030 yng nghyd-destun strategaeth gyflawni hirdymor ar gyfer y 25 mlynedd nesaf. Yn eu strategaethau, rhaid i gwmnïau nodi'r canlyniadau hirdymor y byddant yn eu cyflawni gan adlewyrchu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru, cwsmeriaid a chymunedau. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at ymrwymiad sero net Llywodraeth Cymru ac ystyried egwyddorion economi gylchol.

Rydym wedi cyflwyno'r dull cydweithredol yng Nghymru a fydd yn galluogi rhanddeiliaid Cymru i lywio'r canlyniadau a'r blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru. Rydym yn disgwyl i gwmnïau adlewyrchu'r rhain yn eu strategaethau cyflawni hirdymor a'u cynlluniau busnes.

Byddwn hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau gynnal sesiynau her agored a fydd yn rhoi cyfle i randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau defnyddwyr a chyryff amgylcheddol lleol, holi a herio cwmnïau yn ystod y broses o ddatblygu cynlluniau busnes ac ar ôl cyflwyno cynlluniau terfynol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Fforwm PR24 Cymru i chwilio am gyfleoedd i alinio, gan ystyried yr angen i leisiau cwsmeriaid gael eu clywed yn y fforwm.

Mae ein methodoleg derfynol PR24 yn herio cwmnïau i nodi'r atebion gwerth gorau mwyaf effeithiol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd. Gyda'r symudiad tuag at strategaethau cyflawni hirdymor, rydym yn disgwyl i gwmnïau sicrhau buddsoddiad hirdymor effeithlon, fel bod yr ymyriadau cywir yn cael eu darparu, a buddsoddiadau'n cael eu trefnu'n briodol.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau barhau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a symud tuag at sero net drwy eu gweithgareddau parhaus a ariennir drwy lwfansau gwariant sylfaenol. Lle bo hyn yn briodol, byddwn yn annog cwmnïau i fynd ymhellach, yn gyflymach, i leihau allyriadau drwy:

- cyflwyno her sero net a fydd yn caniatáu gwariant gwella penodol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol ar sail gystadleuol i'r cwmnïau hynny sy'n cynnig gwelliannau ymestynnol drwy wariant sylfaenol; a
- chyflwyno ymrwymïadau perfformiad allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol newydd i annog cwmnïau i sicrhau gostyngiadau pellach mewn allyriadau yn ystod 2025-30.

## 2.2 Sicrhau manteision amgylcheddol ehangach

### **Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ni herio cwmnïau i ddangos sut mae ystyriaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau wedi'u gwreiddio ar draws eu gweithgareddau.**

Yn PR24, rydym am gymell cwmnïau i wella bioamrywiaeth, er enghraifft ochr yn ochr â darparu atebion seiliedig ar natur. Yng Nghymru, bydd hyn yn cefnogi cyfraniad cwmnïau dŵr at warchod a rheoli'n effeithiol o leiaf 30% o dir, dŵr croyw a môr ar gyfer byd natur erbyn 2030 a hefyd y dangosyddion llesiant, [‘Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru’](#) a [‘Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru’](#). Rydym wedi mireinio ein dull o fesur ymrwymïadau perfformiad amgylcheddol newydd. Mae hyn yn cynnwys addasu'r ymrwymïad perfformiad bioamrywiaeth i'w wneud yn berthnasol i ni yng Nghymru.

Rydym am i gwmnïau ystyried eu heffeithiau ehangach wrth wneud penderfyniadau buddsoddi a gweithredol. Er enghraifft, ystyried yr effeithiau ar fioamrywiaeth ac allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol o fuddsoddiadau i wella ansawdd dŵr afonydd mewn ffordd gyfannol ac integredig.

Mae ein methodoleg derfynol PR24 yn rhoi mwy o bwyslais ar werth gorau yn ein hasesiad o wariant gwella.<sup>3</sup> Er mwyn cefnogi'r gwaith o sicrhau buddion amgylcheddol a chymdeithasol ehangach lle mae hyn yn werth gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd, yn PR24 byddwn yn:

- disgwyl i gwmnïau asesu ystod eang o opsiynau i ddiwallu angen diffiniedig, gan gynnwys atebion seiliedig ar natur, camau gweithredol, cynlluniau arloesol a modiwlaidd;
- ystyried y manteision amgylcheddol a chymdeithasol ehangach yn fwy cadarn a helaeth yn ein hasesiad o gynigion gwella;<sup>4</sup> ac
- asesu ansawdd ac uchelgais cynlluniau busnes cwmnïau, gan gynnwys cyflawni perfformiad ymestynnol o lwfansau gwariant sylfaenol a defnyddio atebion gwerth gorau i gyflawni gofynion.

Yn PR24 rydym am i gwmnïau sicrhau manteision amgylcheddol a chymdeithasol ehangach wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau statudol. Dylai cwmnïau wneud hyn lle mae hyn yn

---

<sup>3</sup> Cynlluniau gwerth gorau yw'r rheini sy'n cynhyrchu'r budd economaidd hirdymor mwyaf i gwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas, gan ystyried cost y cynllun.

<sup>4</sup> Dylai'r manteision sy'n dylanwadu fwyaf ar y dewis o atebion fod yn fesuradwy ac wedi'u dangos yn gadarn.



werth gorau i gwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas, gan ystyried yr effaith ar fforddiadwyedd biliau. Er mwyn cefnogi cwmnïau sy'n darparu gwerth gorau, byddwn yn ystyried manteision amgylcheddol a chymdeithasol ehangach yn fwy cadarn ac yn fwy helaeth yn ein hasesiad o wariant gwella. Dylai cwmnïau ymgysylltu â'u cwsmeriaid i lywio cynigion o'r fath.

## 3. Yr Amgylchedd

Mae cwmnïau dŵr yn chwarae rhan allweddol mewn gwarchod a gwella'r amgylchedd. Rydym yn disgwyl i gwmnïau flaenoriaethu camau gweithredu i leihau llygredd a gwella eu perfformiad amgylcheddol yn sylweddol, tra'n sicrhau gwerth hirdymor i gwsmeriaid.

### 3.1 Gwella perfformiad amgylcheddol

**Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ni, ymhlith pethau eraill, herio cwmnïau i ddangos sut y byddant yn sicrhau perfformiad amgylcheddol gwell parhaus.**

Mae ein methodoleg derfynol PR24 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau fabwysiadu pecyn o ymrwymadau perfformiad amgylcheddol cyffredin ar gyfer 2025-30, gan gynnwys:

- bioamrywiaeth;
- gostyngiadau gweithredol mewn allyriadau nwyon tŷ gwyr;
- galw am ddŵr;
- gorlifau stormydd;
- ansawdd dŵr afonydd;
- digwyddiadau llygredd (difrifol a chyfanswm);
- cydymffurfio â thrwydded rhyddhau; ac
- ansawdd dŵr ymdrochi.

Bydd ein fframwaith canlyniadau yn dwyn cwmnïau i gyfrif am y canlyniadau y mae cwsmeriaid yn talu amdanynt - ac yn cymell cwmnïau i fynd y tu hwnt i hyn pan fo hynny er budd cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Yng Nghymru, rydym yn disgwyl i gwmnïau gynnig buddsoddiadau gorlif stormydd nad ydynt yn cael eu hariannu drwy lwfansau sylfaenol lle mae tystiolaeth y byddant yn gwella ansawdd dŵr afonydd y tu hwnt i'w rhwymedigaethau cyfreithiol presennol. Dylai'r cynigion hyn ddefnyddio'r gwaith a wnaed fel rhan o'r broses cynllun rheoli draenio a dŵr gwastraff a gwaith tasglu ansawdd dŵr gwell Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd am weld newid sylweddol yn iechyd ecosystemau afonydd yng Nghymru. Er mwyn bodloni'r disgwyliad hwn, byddwn yn herio cwmnïau dŵr i ddilyn dull integredig seiliedig ar ganlyniadau sy'n gyson â'r â'r fframwaith cyflawni ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) a roddwyd ar waith gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru yn ysgogi dull cydweithredol ar gyfer nodi ac yna sicrhau camau gweithredu i wneud gwelliannau'n gyflym.

Byddwn hefyd yn rhoi mwy o gymhelliant i berfformiad drwy fwy o gymhellion ar ymrwymiadau perfformiad allweddol, megis llifogydd o garthffosydd, toriadau mewn cyflenwad dŵr, gollyngiadau, defnydd y pen a digwyddiadau o lygredd.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal y fframwaith canlyniadau cyffredinol mewn adolygiadau prisiau yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl i'r canlyniadau yr ydym yn eu cymell yn PR24 fod o bwysigrwydd parhaus i gwsmeriaid a'r amgylchedd, a disgwylid iddynt gael cymhellion ariannol mewn cyfnodau adolygu prisiau yn y dyfodol.

Mae ein methodoleg derfynol PR24 yn gyson â'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol (NEP) yng Nghymru a chynllunio rheoli basn afon. Yn benodol, rydym yn:

- cefnogi symudiad tuag at NEP sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau a byddwn yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni hyn, gan sicrhau cysondeb â'r dull a ddefnyddiwn ar gyfer gwariant gwella arall;<sup>5</sup> a
- disgwyl i gwmnïau ystyried cynlluniau rheoli basnau afonydd wrth ddatblygu eu rhaglenni NEP a'u cynigion gwella.

Mae gan gwmnïau eisoes sawl fframwaith cynllunio strategol hirdymor gan gynnwys cynlluniau rheoli adnoddau dŵr (WRMP) a chynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff (DWMP). Mae'r fframweithiau hyn yn pennu cyfeiriad hirdymor ar gyfer meysydd allweddol gweithgareddau cwmnïau ac yn cynnwys cydweithredu â rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill.

Drwy WRMP a DWMP rydym yn disgwyl i gwmnïau:

- ystyried ystod eang o opsiynau sy'n lliniaru'r risgiau a nodwyd, gan gynnwys atebion seiliedig ar natur, cynlluniau ar raddfa dalgylch ac ymyriadau seilwaith llwyd traddodiadol.
- dangos bod addasiadau i gyfundrefnau gweithredu a chynnal a chadw wedi cael eu rhoi ar waith cyn archwilio opsiynau gwella;
- ystyried yn llawn gyd-ddibyniaethau â rhanddeiliaid eraill o ran cynlluniau strategol a chyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys cyd-ariannu a chyd-gyflawni; a
- gwneud defnydd effeithlon o dechnoleg gyfredol megis mesuryddion clyfar, ac ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys data a rhwydweithiau clyfar.

Byddwn angen i'r allbynnau o fframweithiau cynllunio strategol lywio, a chyd-fynd â, cynllun busnes a strategaeth gyflawni hirdymor pob cwmni yn PR24. Rydym yn disgwyl i gwmnïau ganolbwyntio'n gryf ar yr holl fframweithiau cynllunio strategol er mwyn sicrhau eu bod yn

---

<sup>5</sup> Gyda'r dull hwn rydym yn pennu'r canlyniadau y disgwylid i gwmnïau eu cyflawni ac yna'r lwfansau totex effeithlon sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau hyn. Bydd hyn yn helpu cwmnïau i ddewis y dull gorau o gyflawni'r canlyniadau sy'n ofynnol yn yr NEP, gan hwyluso'r defnydd o atebion seiliedig ar natur.

gadarn, yn gyflawnadwy ac yn hyblyg i ddiwallu disgwyliadau cwsmeriaid a chanlyniadau amgylcheddol.

Byddwn hefyd yn asesu sut mae cwmnïau wedi adlewyrchu ein disgwyliadau yn eu WRMP a'u DWMP terfynol, a sut y maent wedi ymateb i'n hadborth a ddarparwyd drwy gydol y broses gynllunio. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i hyn, ynghyd ag unrhyw wahaniaethau rhwng WRMP terfynol a DWMP terfynol, a chynlluniau busnes PR24, pan fyddwn yn asesu perfformiad a chynigion gwariant yn eu cynlluniau busnes.

## 3.2 Annog atebion seiliedig ar natur

**Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ni herio cwmnïau i symud at ddull ag atebion seiliedig ar natur sy'n mynd i'r afael â phroblemau yn eu ffynhonnell ac sy'n rhoi gwerth gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd.**

Gan adlewyrchu'r dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, rydym am i gwmnïau gynyddu eu defnydd o atebion seiliedig ar natur yn PR24. Mae ein methodoleg derfynol PR24 yn cefnogi cwmnïau i wneud cynnydd sylweddol o newid yn y defnydd o atebion seiliedig ar natur drwy:

- ystyried y manteision amgylcheddol a chymdeithasol ehangach yn fwy cadarn a helaeth yn ein hasesiad o gynigion gwella;<sup>6</sup>
- cyflwyno ymrwymadau perfformiad amgylcheddol newydd lle gall cwmnïau sicrhau taliadau allberfformio drwy gyflawni mwy dros yr amgylchedd;
- darparu sefyllfa fwy cytbwys rhwng atebion traddodiadol ac anhraddodiadol. Byddwn yn gwneud hyn drwy osod lwfans gwariant gweithredu deng mlynedd parhaus ar gyfer atebion anhraddodiadol sydd wedi'u seilio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar wariant gweithredu parhaus (e.e. atebion rheoli dalgylch); a
- meincnodi costau atebion seiliedig ar ddalgylch a natur ar wahân i gostau atebion mwy traddodiadol i ganfod ysgogwyr cost yr atebion cyntaf yn well ac felly osgoi eu rhoi dan anfantais yn anfwriadol o gymharu ag atebion eraill.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau gynnig atebion seiliedig ar natur a dalgylch, lle gellir dangos eu bod yn ateb effeithiol. Dylai cwmnïau ystyried risgiau ac ansicrwydd wrth werthuso a fydd defnyddio atebion seiliedig ar natur yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir ac yn caniatáu iddynt fodloni eu gofynion statudol.

Byddwn hefyd yn caniatáu cynlluniau peilot amserol a chymesur i alluogi cwmnïau i brofi atebion seiliedig ar natur y mae cryn dipyn o ansicrwydd o ran y posibilrwydd o'u cyflawni, ond a allai ddod â manteision sylweddol i gwsmeriaid a'r amgylchedd yn y dyfodol. Er mwyn i ni ystyried y cynlluniau hyn mae angen i gwmnïau nodi sut y maent yn bwriadu monitro ac

---

<sup>6</sup> Mae angen i'r manteision sy'n dylanwadu fwyaf ar y dewis o ateb fod yn fesuradwy a chael eu dangos yn gadarn.

adrodd ar gynnydd a chanlyniadau'r cynllun, gan gynnwys sut y caiff y data ei rannu â chwmnïau eraill.

### 3.3 Defnyddio dŵr yn gynaliadwy

**Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ni annog a chymell defnydd cynaliadwy ac effeithlon o adnoddau dŵr, gan gynnwys drwy annog cwmnïau i leihau achosion o ollyngiadau a defnydd gan gwsmeriaid.**

Rydym am annog defnydd cynaliadwy ac effeithlon ar adnoddau dŵr gan gwmnïau a chwsmeriaid. Mae ein methodoleg derfynol ar gyfer PR24 yn:

- gosod ymrwymïadau perfformiad ar wahân ar gyfer gollyngiadau, defnydd y pen a galw gan fusnesau gyda thargedau lefelau gwasanaeth sy'n gyson ag ymrwymïadau perthnasol y diwydiant;
- gosod cymhellion gwell ar gyfer gollyngiadau a defnydd y pen;
- cymell gostyngiadau mewn defnydd gan fusnesau drwy ymrwymïad perfformiad newydd;
- gosod disgwyliad i gwmnïau ystyried y meysydd allweddol y disgwyliwn iddynt gael eu hymgorffori drwy WRMP;<sup>7</sup>
- herio cwmnïau o Gymru i sicrhau gostyngiadau hirdymor yn y galw yn unol â'r targedau a osodwyd ar gyfer cwmnïau eraill, lle bo hyn yn briodol ac yn gyson â disgwyliadau Llywodraeth Cymru;
- gosod disgwyliad i gynlluniau busnes cwmnïau a strategaethau cyflawni hirdymor adlewyrchu eu WRMP terfynol ar ôl mynd i'r afael â'r her a'r adborth a ddarparwn yn ystod proses y WRMP;<sup>8</sup> ac
- ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau adrodd ar gynnydd mewn lleihau'r galw cyffredinol am ddŵr yn eu hadroddiadau rheoleiddio blynyddol.

I gefnogi cwmnïau i ddefnyddio dŵr yn gynaliadwy byddwn hefyd yn:

- cyflwyno cronfa effeithlonrwydd dŵr newydd gwerth hyd at £100 miliwn ar draws Cymru a Lloegr i hwyluso datblygiad gwelliannau trawsnewidiol i effeithlonrwydd dŵr ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i helpu i leihau'r galw am ddŵr; a

---

<sup>7</sup> Ofwat, ['Disgwyliadau Ofwat ar gyfer fframweithiau cynllunio strategol yn PR24'](#): llythyr at Gyfarwyddwyr Rheoleiddio, Tachwedd 2021.

<sup>8</sup> Fel y nodir yn 3.1, byddwn i ystyried a yw cwmnïau wedi mynd i'r afael yn ddigonol â'n hadborth ac unrhyw wahaniaethau rhwng WRMPau terfynol a chynlluniau busnes pan fyddwn yn asesu gwariant a chynigion perfformiad yn eu cynlluniau busnes.

- pharhau i ariannu datblygiad atebion adnoddau dŵr rhanbarthol strategol yn ystod 2025-30 drwy broses symlach<sup>9</sup>.

Fel y nodwyd yn adran 3.1, rydym yn disgwyl i allbynnau o fframweithiau cynllunio strategol, megis DWMP a WMRP lywio, a chyd-fynd â, cynllun busnes a strategaeth gyflawni hirdymor pob cwmni yn PR24. Byddwn yn cadw hyn mewn cof ac yn ystyried a yw cwmnïau wedi mynd i'r afael yn ddigonol â'n hadborth ac os oes unrhyw wahaniaethau rhwng WRMPau terfynol a chynlluniau busnes pan fyddwn yn asesu gwariant a chynigion perfformiad yn eu cynlluniau busnes.

---

<sup>9</sup> Mae atebion adnoddau dŵr yn dod yn cael eu datblygu drwy broses â gatiâu Cynghair Rheoleiddwyr ar gyfer Datblygiad Seilwaith (RAPID). Mae RAPID yn bartneriaeth sy'n cynnwys Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gysylltiedig mewn rôl gynghori, gyda rôl gwneud penderfyniadau ar gyfer unrhyw ateb sy'n ymwneud â Chymru, polisi a deddfwriaeth Cymru.

## 4. Gwytnwch

**Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ni, ymhlith pethau eraill, herio cwmnïau i sicrhau bod gwytnwch gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yn awr ac yn y dyfodol yn cael ei ddeall a'i reoli drwy gynlluniau cadarn, addasol a seiliedig ar dystiolaeth.**

Gan ddefnyddio ein pecyn cymorth y tu mewn a'r tu allan i'r rheolaeth prisiau, rydym am i gwmnïau ymdrechu i gael gwytnwch gweithredol cryf. Golyga hyn:

- seilwaith a gwasanaethau cadarn;
- y sgiliau a'r systemau cywir;
- gwytnwch corfforaethol cryf gydag arweinyddiaeth bwrdd, llywodraethu, atebolrwydd a sicrwydd da; a
- gwytnwch ariannol cryf gyda threfniadau ariannol cadarn gan gynnwys strwythurau cyfalaf.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau nodi a rheoli ystod gymhleth o risgiau i ddiwallu anghenion hirdymor cwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd. Mae ein methodoleg derfynol PR24 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau:

- osod eu cynlluniau busnes pum mlynedd yng nghyd-destun strategaeth gyflawni hirdymor 25 mlynedd, sy'n cynrychioli symudiad sylweddol tuag at gynllunio ymaddasol yn y sector; ac
- rhoi ystyriaeth i fanteision amgylcheddol a chymdeithasol ehangach, costau, risgiau a fforddiadwyedd bil cwsmeriaid wrth ddatblygu eu cynigion.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau asesu risg o ystod eang o beryglon yn systematig, gan gynnwys llifogydd afonol ac arfordirol drwy eu fframweithiau gwytnwch integredig. Mae hyn yn cynnwys adolygu'n rheolaidd a deall yn llawn y risg llifogydd presennol ac yn yr hirdymor i'w seilwaith a'u systemau, nodi cyfleoedd i gynyddu gwytnwch, a darparu mwy o wytnwch rhag llifogydd ar gyfer eu seilwaith a'u gwasanaethau eu hunain. Rydym wedi diwygio'r diffiniad o wella gwytnwch i gynnwys rheoli risgiau cynyddol, neu newid cydnabyddiaeth/derbynioldeb risgiau, o beryglon sydd y tu hwnt i'w rheolaeth, nad ydynt wedi'u cynnwys mewn meysydd gwella eraill.

Rydym yn cydnabod y pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn ei roi ar wytnwch economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig ag adnoddau dŵr yng Nghymru, yn enwedig wrth ystyried trosglwyddiadau dŵr o fewn a thu allan i Gymru. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr gadw at ganllawiau cynllunio adnoddau dŵr y cyd-reoleiddiwr ac egwyddorion arweiniol WRMP Llywodraeth Cymru, ac i weithio'n agos â'r holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys Cynghrair Rheoleiddwyr ar gyfer Datblygiad Seilwaith

(RAPID). Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ar wytnwch adnoddau dŵr drwy gydol PR24 ac ymlaen i PR29.

Mae gwytnwch wrth wraidd WRMP a DWMP ac maent yn galluogi cwmnïau i nodi buddsoddiad gwella sydd ei angen i gynnal gwytnwch i rai peryglon yn yr hirdymor. Byddwn hefyd yn sicrhau bod cwmnïau'n parhau i fod yn atebol am eu perfformiad mewn cyflawni yn erbyn ein penderfyniad terfynol, am eu dewisiadau ariannu a'u gwytnwch ariannol.

Bydd gofyn i gwmnïau a'u Byrddau hefyd wneud y canlynol:

- bod yn berchen ar eu cynlluniau busnes a'r prosesau cynllunio busnes sy'n sail i bob agwedd ar y cynllun a bod yn atebol amdanynt; a
- darparu sicrwydd a bodloni eu hunain bod y systemau, rheoli risg a phrosesau a ddefnyddir i lywio'r sicrwydd hwn yn briodol ac yn effeithiol.

## 4.1 Rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg

**Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ni herio cwmnïau i sicrhau mwy o wytnwch rhag llifogydd ac annog cwmnïau i ystyried yr angen i fuddsoddi mewn seiberddiogelwch.**

Mae gan gwmnïau dŵr rolau a dyletswyddau rheoli risg llifogydd statudol. Yn PR24 byddwn yn cymhell cwmnïau i reoli risg llifogydd o'u carthffosyddrwy osod ymrwymadau perfformiad cyffredin ar lifogydd mewnol ac allanol o garthffosydd gyda chymhellion ariannol cryf i sicrhau gostyngiadau dros amser. Bydd y diffiniad diwygiedig o wella gwytnwch a ddisgrifir uchod hefyd yn cefnogi mwy o wytnwch rhag llifogydd e.e. llifogydd afonol neu arfordirol asedau cwmni. Byddwn hefyd yn monitro'r perygl o eiddo yn dioddef llifogydd mewn storm fel rhan o'n gwaith monitro gwytnwch gweithredol ehangach.

Mae diogelwch yn rhan greiddiol o wytnwch cwmnïau dŵr. Bydd gwariant ar gyflawni canlyniadau'r Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (SEMD) yn cyfrannu at wytnwch yn wyneb bygythiadau diogelwch a digwyddiadau gweithredol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed i sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol cwmnïau'n cael eu cyflawni'n effeithlon i ddiogelu rhag yr ystod eang o fygythiadau diogelwch newydd a gofynion parodrwydd.



## 5. Iechyd asedau

**Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ni, ymhlith pethau eraill, herio cwmnïau i fonitro iechyd eu hasedau a darparu cynlluniau sy'n edrych i'r dyfodol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion dros yr hirdymor.**

Rydym yn hyrwyddo rheoli asedau da o fewn a thu allan i'r broses adolygu prisiau. Y tu allan i'r adolygiad prisiau, rydym wedi cynnal asesiad aeddfedrwydd rheoli asedau i ddeall sut mae cwmnïau'n monitro ac yn rheoli iechyd asedau ac yn amlygu arfer gorau ac arloesedd.<sup>10</sup> Rydym hefyd yn datblygu fframwaith monitro integredig i roi golwg gyfannol a chyflawn o iechyd asedau a gwytnwch gweithredol wrth symud ymlaen.

Yn PR24 byddwn yn cymell cwmnïau i gyflawni eu cynlluniau hirdymor yn effeithlon tra hefyd yn sicrhau stiwardiaeth hirdymor priodol o'u hasedau. Byddwn yn:

- defnyddio ymrwymadau perfformiad iechyd asedau allweddol, megis atgyweiriadau i'r prif gyflenwad, toriadau heb eu cynllunio a charthffosydd yn cwmpo gyda chymhellion ariannol i gynnal a gwella lefelau gwasanaeth – yn ychwanegol at ymrwymadau perfformiad eraill ar gyfer cwsmeriaid a all hefyd fod yn ddangosyddion iechyd asedau;
- casglu data ychwanegol am brif bibellau dŵr a chyflwr carthffosydd i'n galluogi i wirio a yw cyfraddau adnewyddu yn cyd-fynd â'r dirywiad;
- ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau nodi gwelliannau disgwylidig mewn perfformiad o wariant sylfaenol dros y 25 mlynedd nesaf fel rhan o'u strategaeth gyflawni hirdymor; a
- darparu gwariant gwella gwytnwch i gwmnïau reoli risgiau cynyddol, neu newid cydnabyddiaeth/derbynioldeb risg, o beryglon sydd y tu hwnt i'w rheolaeth ac nad ydynt wedi'u cynnwys mewn meysydd gwella eraill.

### 5.1 Buddsoddi mewn cynnal a chadw cyfalaf

**Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ni ystyried annhegwch rhwng cenedlaethau wrth werthuso buddsoddiad cyfalaf cynnal a chadw a cheisio diogelu buddiannau cwsmeriaid y dyfodol yn ogystal â'r cwsmeriaid presennol. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod lwfansau gwariant ar gyfer cynnal a chadw cyfalaf yn ddigonol.**

Mae cwmnïau wedi gwneud gwelliannau i iechyd asedau o fewn eu lwfansau gwariant sylfaenol yn y gorffennol a disgwyliwn iddynt barhau i wneud hynny yn y dyfodol. Yn PR24 byddwn yn:

- anelu at edrych mwy i'r dyfodol yn ein modelu gwariant sylfaenol; a

---

<sup>10</sup> Ofwat, '[Asesiad aeddfedrwydd rheoli asedau – mewnwelediadau ac argymhellion](#)', Hydref 2021.

- casglu data ychwanegol lle gallai cymhlethdod triniaeth gynyddu yn y dyfodol fel y gallwn roi ystyriaeth i hyn wrth osod lwfansau gwariant effeithlon.

Byddwn hefyd yn ystyried tystiolaeth cwmnïau ar ffactorau alldarddol ychwanegol neu ysgogwyr cost sy'n gofyn am newid sylweddol mewn gwariant cynnal a chadw effeithlon drwy'r broses hawlio addasiad cost.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein dull rheoleiddio, gan gynnwys PR24, yn hyrwyddo cyflawni rhwymedigaethau cwmnïau yn effeithlon fel y'u diffinnir gan y Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (SEMD). Rydym yn disgwyl i waith cynnal a chadw ac amnewid asedau a systemau diogelwch presennol i safonau modern cyfatebol gael eu cyflawni o lwfansau sylfaenol. Rydym yn cynnig darparu lwfansau ychwanegol i dalu am ddynodiadau newydd a newidiadau sylweddol i lefel gwasanaeth newydd a gwell.

Bydd strategaethau cyflawni hirdymor yn annog cwmnïau i fuddsoddi nawr mewn gwelliannau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol, gan ymateb i senarios tebygol yn y dyfodol, gan gynnwys ar newid yn yr hinsawdd a galw. Rydym yn disgwyl i gwmnïau roi sylw i gydbwysedd adennill costau rhwng gwahanol genedlaethau i sicrhau ein bod yn diogelu buddiannau cwsmeriaid nawr ac yn yr hirdymor.

## 6. Cwsmeriaid a chymunedau

Mae cwsmeriaid yn wynebu pwysau costau byw sylweddol. Ar gyfer PR24 rydym yn disgwyl i gynlluniau busnes cwmnïau adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau cwsmeriaid a chymunedau, gyda ffocws ar bryderon ynghylch fforddiadwyedd biliau. Felly bydd angen i gwmnïau ddatblygu cynlluniau busnes sy'n sicrhau:

- fforddiadwyedd cyffredinol, gan gynnwys darparu gwerth am arian;
- fforddiadwyedd ar gyfer cwsmeriaid presennol a'r dyfodol; a
- fforddiadwyedd i gwsmeriaid preswyl sy'n cael trafferth talu, neu sydd mewn perygl o gael trafferth talu.

### 6.1 Cefnogi fforddiadwyedd

**Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ni, ymhlith pethau eraill, ystyried fforddiadwyedd i bob cwsmer, ac i gwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu bil dŵr, wrth ddylunio ein fframwaith rheoleiddio.**

Rydym am i gwmnïau gyflawni cynlluniau sy'n fforddiadwy, ar gyfer cwsmeriaid presennol a'r dyfodol, ac ar gyfer cwsmeriaid preswyl a allai ei chael yn anodd talu eu biliau.

Rydym wedi bod yn glir na ddylai cwmnïau aros tan PR24 i weithredu ar heriau fforddiadwyedd.<sup>11</sup> Er mai PR24 yw ein prif offeryn ar gyfer rheoleiddio cwmnïau i sicrhau fforddiadwyedd cyffredinol, rydym hefyd yn defnyddio ein pecyn cymorth ehangach y tu allan i PR24, yn enwedig i gefnogi cwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu biliau.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau gefnogi fforddiadwyedd yn PR24 drwy:

- sicrhau newid sylweddol mewn effeithlonrwydd tra'n trawsnewid perfformiad;
- arloesi a gweithio mewn partneriaethau i ddarparu mwy i gwsmeriaid;
- defnyddio ffocws hirdymor i leihau costau oes a buddsoddiadau fesul cam dros amser;
- deall yn glir farn cwsmeriaid, gan gynnwys eu disgwyliadau ynghylch talu am welliannau nawr neu yn y dyfodol;
- deall yn glir a chefnogi anghenion amrywiol cwsmeriaid o ddydd i ddydd, nid dim ond ar gyfer adolygiad prisiau;
- dangos bod eu cynlluniau'n fforddiadwy, gan gynnwys ar gyfer y rheini sy'n cael trafferth talu; ac
- ystyried y ffordd orau o sicrhau tegwch rhwng cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid y dyfodol.

---

<sup>11</sup> Ofwat, CCW '[Cefnogi cwsmeriaid drwy bwysau costau byw](#)', Hydref 2022

Yn dilyn ymlaen o'r argymhelliad a wnaed gan Adolygiad Fforddiadwyedd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCW), mae llywodraethau'r DU a Chymru yn ystyried rôl, a ffurf posibl, cynllun disgownt fforddiadwyedd dŵr sengl ar gyfer y sector dŵr a dŵr gwastraff. Er mwyn cyd-fynd yn well ag amseriad gwaith y sector ar hyn, rydym yn bwriadu pennu gofynion ar gyfer tariffau cymdeithasol yng nghynlluniau busnes cwmnïau ochr yn ochr â fersiwn ddiweddarach o dablau data PR24 a gyhoeddir yn 2023.

Rydym eisoes wedi bod yn defnyddio ein pecyn cymorth rheoleiddio ehangach i annog cwmnïau i weithredu argymhellion Adolygiad Fforddiadwyedd CCW.<sup>12</sup> Er enghraifft, mae ein canllawiau Talu'n Deg yn gosod isafswm disgwyliadau ar gyfer cefnogi cwsmeriaid sydd mewn dyled.<sup>13</sup> Ym mis Hydref 2022, mewn llythyr ar y cyd â CCW, gwnaethom ofyn am ragor o wybodaeth gan gwmnïau dŵr am gynlluniau i gefnogi cwsmeriaid drwy bwysau costau byw. Byddwn yn adrodd ar y cynlluniau hyn yn gynnar yn 2023.

Byddwn yn parhau i gefnogi fforddiadwyedd y tu allan i'r adolygiad pris drwy:

- ddatblygu amod trwydded sy'n canolbwyntio ar y cwsmer i helpu i gynyddu ffocws ar gwsmeriaid cwmnïau a chymell y gwasanaeth gorau oll, tra'n sicrhau bod gennym y gymysgedd gywir o offer rheoleiddio i sicrhau newid pan na fydd gwasanaeth yn cyrraedd y safon;<sup>14</sup>
- ymgynghori ar arloesi codi tâl i gefnogi fforddiadwyedd biliau dŵr;<sup>15</sup> a
- herio cwmnïau i wella cyrhaeddiad a chywirdeb eu cofrestri gwasanaethau blaenoriaeth, gan gynnwys drwy rannu data gyda'r diwydiant ynni ac eraill.

## 6.2 Ymgysylltu â chwsmeriaid

### **Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gwsmeriaid gael eu cynnwys yn ystyrlon ynghylch fforddiadwyedd a derbynioldeb biliau yn y dyfodol.**

Ein huchelgais yw bod lleisiau cwsmeriaid preswyl a busnes yn cael eu clywed yn fwy uniongyrchol ac yn fwy ystyrlon yn PR24 nag erioed o'r blaen. Gobeithiwn y bydd ymgysylltu mwy tryloyw o ansawdd uwch yn helpu i feithrin ymhellach y perthnasoedd sydd eu hangen i wneud mwy o gynnydd ar yr heriau mawr megis ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd, cyflymu gwelliannau amgylcheddol ac ymateb i'r pwysau ar gyllid pobl. Mae hyn yn arbennig o wir lle bydd cyflawni canlyniadau yn elwa o fod cwmnïau'n gweithio mewn partneriaeth â'u cwsmeriaid a'u cymunedau i gyflawni uchelgais yn gyflym.

---

<sup>12</sup> CCW, '[Adolygiad annibynnol fforddiadwyedd dŵr](#)', Mai 2021

<sup>13</sup> Ofwat, 'Talu'n deg - canllawiau i gwmnïau dŵr i gefnogi cwsmeriaid preswyl i dalu eu bil, cyrchu cymorth ac ad-dalu dyledion,' Mai 2022.gyhoeddi canllawiau newydd i gwmnïau dŵr ar gynorthwyo cwsmeriaid preswyl i dalu eu biliau, cael help ac ad-dalu dyledion

<sup>14</sup> Ofwat, Amod trwydded sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, 2022.

<sup>15</sup> Ofwat, '[Ymgynghoriad ar arloesi codi tâl i gefnogi fforddiadwyedd](#)', Medi 2022.

Rydym wedi datblygu dull cyffredin ar gyfer ymchwilio i farn cwsmeriaid am fforddiadwyedd a derbynioldeb cynlluniau. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cymharu barn cwsmeriaid ar draws cwmnïau. Gan weithio'n agos gyda chwmnïau a CCW, rydym hefyd yn cynnal ymchwil cwsmeriaid ar y cyd i ddeall blaenoriaethau a safbwyntiau cymharol cwsmeriaid ar y canlyniadau y mae angen i gwmnïau eu cyflawni. Bydd hyn yn sicrhau bod cwmnïau'n cael eu cymell yn ariannol i gyflawni'r canlyniadau y mae cwsmeriaid yn poeni fwyaf amdanynt.

Gan wrando ar adborth ar ôl PR19 ac sy'n adlewyrchu amgylchiadau a chyd-destun polisi Cymru, rydym wedi cyflwyno dull cydweithredol newydd ar gyfer PR24 yng Nghymru. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod rhanddeiliaid o Gymru, drwy Fforwm PR24 Cymru, yn cydweithredu i ddarparu cyfeiriad ar gyfer canlyniadau strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru. Mae'r cyfeiriadau hyn yn eu tro yn helpu i lywio strategaethau cyflawni hirdymor a chynlluniau busnes cwmnïau. Mae llais y cwsmer yn faes allweddol y mae Fforwm PR24 Cymru yn ei ystyried gyda CCW yn aelod craidd, ac rydym yn sicrhau bod canfyddiadau ein hymchwil cwsmeriaid yn llywio'r trafodaethau hyn.

Rydym hefyd yn sicrhau bod cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn gallu gwneud sylwadau uniongyrchol ar gynlluniau cwmnïau. Mae'n ofynnol i gwmnïau gynnal sesiynau her agored lle bydd cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn gallu holi'r cwmni am themâu allweddol yn ei gynlluniau drafft ac arfaethedig. Bydd angen i gwmnïau ddangos bod eu cynlluniau'n fforddiadwy, gan gynnwys ar gyfer y rheini sy'n cael trafferth talu. Ein nod yw alinio'r sesiynau hyn ar gyfer cwmnïau yng Nghymru â gweithgareddau Fforwm PR24 Cymru cyn belled ag y bo modd.

## 6.3 Defnyddio marchnadoedd

**Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ni weithio gydag eraill i sicrhau pontio llyfn wrth i Lywodraeth Cymru geisio cynyddu'r trothwy cymhwysedd ar gyfer cystadleuaeth manwerthu ac adolygu ein dull ar gyfer gwasanaethau datblygwyr yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben i gefnogi datblygu economaidd yng Nghymru.**

Er mwyn hwyluso unrhyw gynnydd yn y trothwy cymhwyster ar gyfer cystadleuaeth yn y farchnad manwerthu busnes byddwn yn gosod rheolaeth refeniw cyfartalog sy'n hyrwyddo gwerth am arian i bob cwsmer nad yw'n gymwys ar gyfer cystadleuaeth, beth bynnag fo'r trothwy.

O ran gwasanaethau datblygwyr, byddwn yn tynnu gwasanaethau datblygwyr dŵr gwastraff safle-benodol o'r rheolaeth prisiau yn PR24 gan ei fod yn cael ei ddarparu bron yn gyfan gwbl gan ddarparwyr amgen neu'n cael ei hunan-ddarparu. Ond byddwn yn cadw gwasanaethau datblygwyr dŵr safle-benodol yn y rheolaeth prisiau ar gyfer cwmnïau dŵr yng Nghymru o ystyried nad oes cystadleuaeth eang ac nad ydym yn gallu gosod rheolau codi tâl ar hyn o

bryd i ddiogelu cwsmeriaid cysylltiad newydd. Bydd atgyfnerthu rhwydwaith hefyd yn parhau yn y rheolaeth prisiau gan nad yw'n cael ei herio ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i adolygu ein dull ar gyfer gwasanaethau datblygwyr i sicrhau ei fod yn addas at y diben i gefnogi datblygiad economaidd yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod safbwynt Llywodraeth Cymru ar gystadleuaeth, yn enwedig na ddylid cyflwyno cystadleuaeth lle byddai'n:

- lleihau atebolrwydd cyffredinol cwmnïau am ddarparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid a'r amgylchedd;
- bygwth uniondeb ac effeithlonrwydd rheolaeth y system ddŵr; neu
- ni ellir dangos tystiolaeth glir y byddai o fudd i gwsmeriaid.

**Ofwat (The Water Services Regulation Authority)  
is a non-ministerial government department.  
We regulate the water sector in England and Wales.**

Ofwat  
Centre City Tower  
7 Hill Street  
Birmingham B5 4UA  
Phone: 0121 644 7500

© Crown copyright 2022

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3).

Where we have identified any third party copyright information, you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

This document is also available from our website at [www.ofwat.gov.uk](https://www.ofwat.gov.uk).

Any enquiries regarding this publication should be sent to [mailbox@ofwat.gov.uk](mailto:mailbox@ofwat.gov.uk).